

Memorandwm Esboniadol i Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2022

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB), a chaiff ei osod gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Dirprwy Weinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig y Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol (Mewnforio Bwyd a Bwyd Anifeiliaid Risg Uchel Nad Ydynt yn Dod o Anifeiliaid) (Diwygio Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1793) (Cymru) 2022.

Lynne Neagle AS
Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant
16 Rhagfyr 2022

Rhan 1

1. Disgrifiad

Diben yr offeryn hwn yw diwygio deddfwriaeth bwyd wedi'i fewnforio a ddargedwyd gan y DU pan ymadawodd â'r UE. Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn a ddargedwir (EU) 2019/1793 ar y cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol a mesurau brys sy'n llywodraethu mynediad nwyddau penodol o drydydd gwledydd penodol i'r UE ("Rheoliad 2019/1793") yn gosod darpariaethau sy'n gymwys i nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sydd â risg uwch wrth iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr. Mae'r Atodiadau i'r Rheoliad hwnnw'n cynnwys rhestrau o nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid sydd naill ai'n destun cynnydd dros dro mewn rheolaethau swyddogol, yn destun mesurau brys neu'n destun ataliad mynediad i Brydain Fawr.

Mae'r offeryn yn gwneud newidiadau i'r Atodiadau. Dyma grynodedb ohonynt:

- Nwyddau sydd wedi'u tynnu o'r rheolaethau
- Nwyddau sy'n destun llai o reolaethau
- Nwyddau sy'n destun mwy o reolaethau
- Nwyddau sydd angen rheolaethau newydd

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Dim

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae Erthygl 12 o Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'awdurdod priodol' adolygu'r rhestrau a nodir yn Atodiadau I a II o'r Rheoliad yn rheolaidd o leiaf bob chwe mis, a hynny er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio.

Mae'r pwerau i wneud y diwygiadau arfaethedig i'r Atodiadau i Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 wedi'u dal yn Erthyglau 47(2)(b) a 54(4)(a) a (b) o Reoliad a ddargedwir (EU) 2017/625 ar reolaethau swyddogol a gweithgareddau swyddogol eraill a gynhelir i sicrhau bod cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid, rheolau ar iechyd a lles anifeiliaid, iechyd planhigion a chynhyrchion diogelu planhigion yn cael eu cymhwyso ("Rheoliad 2017/625" – y Rheoliad rheolaethau swyddogol); ac Erthygl 53(1)(b) o Reoliad (EC) a Ddargedwir Rhif 178/2002 sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau sy'n ymwneud â materion diogelwch bwyd ("Rheoliad 178/2002" – y Rheoliad cyfraith bwyd cyffredinol).

Rhoddir y pwerau hyn i'r 'awdurdod priodol'. Mewn perthynas â Chymru, yr awdurdod priodol yw Gweinidogion Cymru yn rhinwedd Erthygl 3(2A) o Reoliad a ddargedwir 2017/625, ac Erthygl 3(19) o Reoliad a ddargedwir 178/2002.

Mae'r offeryn hwn yn sicrhau parhad system weithredol o reolaethau

swyddogol yng Nghymru ac mae'n adlewyrchu lefel gyfredol y risg a achosir gan nwyddau bwyd a bwyd anifeiliaid risg uwch a fewnforir nad ydynt yn dod o anifeiliaid.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'i heffaith fwriadedig

Mae adolygiad statudol o Reoliad a Ddargedwir 2019/1793 wedi'i gynnal gan yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban i sicrhau bod nwyddau risg uwch yn parhau i fod yn destun rheolaethau uwch wrth iddynt ddod i mewn i Brydain Fawr drwy Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs). Mae rheolaethau o'r fath yn cynnwys archwiliadau dogfennol, hunaniaeth a ffisegol gan gynnwys samplu mewn safleoedd rheoli ffiniau dynodedig.

Mae'r offeryn yn amnewid y rhestrau yn Atodiadau 1, 2 a 2a. Mae hyn yn cynnwys 31 o newidiadau unigol i'r rhestrau a nodir yn Rheoliad 2019/1793. Dyma grynodedb o'r newidiadau:

- mae 3 nwydd wedi'u tynnu o gwmpas y rheolaethau;
- bydd 5 nwydd yn destun lefelau llai o reolaethau;
- bydd 14 nwyddau yn destun lefelau cynyddol o reolaethau;
- bydd 5 nwydd newydd yn destun rheolaethau am y tro cyntaf; ac
- mae is-adran TARIC wedi'i dileu o 4 nwydd.

Mae'r ddeddfwriaeth yn cael ei newid i sicrhau bod rheolaethau ar fwyd a bwyd anifeiliaid a fewnforir i Brydain Fawr yn parhau i adlewyrchu lefel bresennol y risg a achosir gan beryglon cyfredol, newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg.

Mae'r offeryn yn gymwys i Gymru, a bydd offerynnau cyfatebol yn cael eu gwneud yn Lloegr a'r Alban, gan sicrhau, unwaith y bydd yr Offerynnau Statudol wedi dod i rym, y bydd deddfwriaeth yn ei lle i sicrhau bod defnyddwyr ym Mhrydain Fawr yn cael eu diogelu rhag fwyd a bwyd anifeiliaid nad ydynt yn dod o anifeiliaid sydd â'r risg uchaf trwy reolaethau ar ffin Prydain Fawr.

Nid yw'r offeryn hwn yn ymwneud ag ymadael â'r UE nac yn sbarduno'r gofynion datganiad o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae Gogledd Iwerddon yn parhau i fod yn gydnaws â'r egwyddorion a nodir ym Mhrotocol Gogledd Iwerddon.

Rhan 2 – Asesiad Effaith Rheoleiddiol

Nid oes asesiad effaith wedi'i lunio ar gyfer y Rheoliadau hyn gan nad yw Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 yn newydd. Mae deddfwriaeth sy'n rheoli mewnforion bwyd a bwyd anifeiliaid risg uwch wedi bod mewn grym yn y DU ers blynyddoedd lawer. Pan oedd y DU yn aelod o'r UE, diwygiodd y Comisiwn Ewropeaidd y ddeddfwriaeth a chyfrannodd y DU at hyn drwy gyfarfodydd gweithgor ddwywaith y flwyddyn.

Mae'r nwyddau a restrir yn Atodiad I i'r Rheoliad yn cael eu rheoli dros dro er mwyn helpu i bennu a allai fod angen mesurau llymach yn ddiweddarach. O'r herwydd, mae unrhyw effeithiau yn debygol o fod yn rhai byrdymor.

Mae'r nwyddau a gynhwysir yn Atodiad II i'r Rheoliad yn fwy sefydlog eu natur, ond cânt eu cynnwys yn yr adolygiad a gynhelir ddwywaith y flwyddyn. Unwaith y bydd y lefel risg yn newid, bydd lefel y rheolaeth yn cael ei diwygio.

Mae'r nwyddau a restrir yn yr Atodiadau i Reoliad 2019/1793 wedi'u seilio ar risg, ac felly maent yn ymwneud â'r wlad tarddiad benodol yn unig. Felly gall mewnforwyr y DU fewnforio o wledydd eraill ar draws y byd nad yw eu cynhyrchion wedi'u nodi fel rhai 'risg uchel' a lle na fo rheolaethau mewnforio'n berthnasol.

Mae'n debygol y bydd costau ymgysfarwyddo nominal i awdurdodau lleol ac Awdurdodau Iechyd Porthladdoedd mewn perthynas â'r diweddariadau rheolaidd. Gellir adennill costau cynnal rheolaethau swyddogol ar y ffin trwy godi ffioedd a thaliadau.

Dim ond trwy Safleoedd Rheoli Ffiniau sydd eisoes wedi'u sefydlu ym Mhrydain Fawr y gellir mewnforio nwyddau risg uchel. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw Safleoedd Rheoli Ffiniau (BCPs) yng Nghymru felly, ni all y nwyddau hyn, fel y maent ar hyn o bryd, gael eu mewnforio yn uniongyrchol i Gymru o drydydd gwledydd. Nid yw'r ASB wedi nodi unrhyw achosion o nwyddau o'r fath yn cael eu mewnforio i Brydain Fawr drwy Gymru.

6. Ymgynghoriad

Cynhaliwyd ymgynghoriad 12 wythnos yng Nghymru rhwng 14 Ebrill a 7 Gorffennaf 2022, gydag ymgynghoriadau cyfochrog yn Lloegr a'r Alban. Cafwyd nifer o sylwadau ac mae'r ASB wedi cyhoeddi'r ymateb ffurfiol i'r rhain ar eu gwefan.

Cafodd yr ASB sylwadau gan 14 o bartïon â buddiant gan gynnwys cyrff masnach, Cemegydd y Llywodraeth, Awdurdod Iechyd Porthladd, allforwyr ac Awdurdodau Cymwys Canolog ar gyfer diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid rhai gwledydd yr effeithir arnynt gan y cynigion gan gynnwys yr Unol Daleithiau, Twrci a Gwlad Thai. Ychydig o sylwadau oedd mewn ymateb uniongyrchol i'r ddau gwestiwn a ofynnwyd yn yr ymgynghoriad. Roedd nifer o ymholiadau technegol am y newidiadau arfaethedig yn ogystal â cheisiadau i leihau neu ddileu nwyddau o'r cynigion.

Ystyriwyd sylwadau rhanddeiliaid yn ofalus, ac o ganlyniad i'r ymgynghoriad a'r ystyriaeth ddilynol, gwnaed dau newid:

- i. Y newid polisi cyntaf oedd cadw gwiriadau ffisegol ac adnabod ar gnau daear a fewnforiwyd o'r Unol Daleithiau ar 10%, yn hytrach na'u cynyddu i 20%. Manylodd Adran Amaethyddiaeth yr Unol Daleithiau (USDA) ar fesurau rheoli ychwanegol a weithredwyd gan yr Unol Daleithiau i reoli'r

risg o halogiad afflatocsin. Adolygodd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yr wybodaeth a'i chroesgyfeirio â data pellach a gafwyd o ffiniau Prydain Fawr ar fewnforion y cynnyrch hwn. Yn dilyn dadansoddiad o'r data, roedd yr ASB a Safonau Bwyd yr Alban yn fodlon ar y mesurau ychwanegol a roddwyd ar waith gan yr USDA i reoli halogiad afflatocsin mewn pysgnau.

- ii. Yr ail newid polisi oedd mewnosod cod CN 0910 91 yn yr ail dabl yn Atodiad 2 i Reoliad 2019/1793, a hynny er mwyn sicrhau bod cymysgeddau o sbeisys sy'n cynnwys bwydydd risg uchel rheoledig nad ydynt yn dod o anifeiliaid yn ddarostyngedig i reolaethau ar y ffin.

Mae rhai mân newidiadau cywiro eraill hefyd yn cael eu gwneud sydd wedi'u nodi ers adolygu'r rhestrau yn Rheoliad 2019/1793. Amlinellir y newidiadau hyn isod:

- i. mae'r cofnod ar gyfer bwyd wedi'i wneud o ddail betel (*Piper betle*) neu sy'n cynnwys dail betel o Fangladesh wedi'i drosglwyddo o'r tabl yn Atodiad 2a i'r tabl cyntaf yn Atodiad 2 i ganiatáu mynediad sy'n ddarostyngedig i reolaethau sy'n berthnasol i gynhyrchion a restrir yn Atodiad 2.
- ii. mae is-adran TARIC ar gyfer dail betel o India wedi'i dileu i gynyddu'r cwmpas o ran mynediad;
- iii. mae is-adran TARIC ar gyfer Gwm Guar o India wedi'i dileu i adlewyrchu'r newidiadau a wnaed gan CThEF.

Mae'r [ymgyngoriad a gyhoeddwyd gan yr ASB yn ogystal â'r ymatebion i'w gweld yma](#).

Yn unol â rhwymedigaethau rhyngwladol y DU, anfonwyd hysbysiad o'r diwygiadau arfaethedig at Sefydliad Masnach y Byd. Daeth y cyfnod hysbysu i ben ddydd Gwener 4 Tachwedd. Cafwyd dau sylw ac ni nodwyd unrhyw bryderon sylweddol.

7. Asesu'r Gystadleuaeth

Mae asesiad cystadleuaeth wedi'i gynnal, isod. Ni ddisgwylir i'r ddeddfwriaeth gael effaith niweidiol ar gystadleuaeth.

Cwestiwn	Ateb
C1: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 10% yn y farchnad?	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.
C2: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan unrhyw gwmni gyfran o fwy na 20% yn y farchnad?	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.

<i>C3: Yn y farchnad/marchnadoedd y mae'r rheoliad newydd yn effeithio arnynt, a oes gan y tri chwmni mwyaf gyda'i gilydd gyfran yn y farchnad sydd o leiaf 50%?</i>	Ni wyddys, ond gallai fod yn bosib.
<i>C4: A fyddai costau'r rheoliad yn effeithio'n sylweddol fwy ar rai cwmnïau nag eraill?</i>	Na fyddent.
<i>C5: A yw'r rheoliad yn debygol o effeithio ar strwythur y farchnad, gan newid nifer neu faint y busnesau/sefydliadau?</i>	Na fyddent.
<i>C6: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau ymsefydlu uwch ar gyfer cyflenwyr newydd neu ddarpar-gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?</i>	Na fyddent.
<i>C7: A fyddai'r rheoliad yn arwain at gostau parhaus uwch i gyflenwyr newydd neu ddarpar-gyflenwyr nad oes rhaid i gyflenwyr cyfredol eu talu?</i>	Na fyddent.
<i>C8: A yw newid technolegol cyflym yn nodweddiadol o'r sector?</i>	Na fyddent.
<i>C9: A fyddai'r rheoliad yn cyfyngu ar allu cyflenwyr i ddewis pris, ansawdd, ystod neu leoliad eu cynhyrchion?</i>	Na fyddent.

8. Adolygiad ôl-weithredu

Mae cymal adolygu statudol wedi'i ymgorffori yn Rheoliad a Ddargedwir 2019/1793 sy'n gofyn am adolygiad rheolaidd o leiaf bob chwe mis, er mwyn ystyried gwybodaeth newydd sy'n ymwneud â risgiau a diffyg cydymffurfio.